| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **29 MAWRTH 2010** |
| TEITL | **SGRINIO MARWOLAETHAU PENSIYNWYR A GWASANAETH OLRHAIN CYFEIRIADAU** |
| ARGYMHELLIAD | **I GYMERADWYO ARIANNU TREFNIANT AR GYFER SGRINIO MARWOLAETHAU A GWASANAETH OLRHAIN CYFEIRIADAU** |
| AWDUR | **DAFYDD L. EDWARDS – PENNAETH CYLLID** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Uned Bensiynau Gwynedd yn talu dros 7000 o bensiynwyr yn fisol. Maen dibynnol ar y Fenter Twyll Cenedlaethol, teulu a ffrindiau'r aelod ymadawedig, a chyfrifon banc wedi cau i hysbysu'r gwasanaeth am farwolaethau pensiynwyr.

1.2 Nid yw'r holl farwolaethau yn cael eu hysbysu yn syth, maen bosib i wythnosau a misoedd fynd heibio mewn rhai achosion. Mae hysbysiadau hwyr yn creu gordaliadau, mae adennill yr arian yn cymryd llawer o amser, ac mewn achosion ble mae'r farwolaeth wedi digwydd mewn blwyddyn dreth flaenorol, mae angen ail edrych ac addasu gohebiaeth i TCEM.

1.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi ble anfoni'r slipiau tal pensiwn dim ond pan fydd gwahaniaeth yn y taliad pensiwn net o 50 ceiniog o'i gymau a thaliad pensiwn y mis cynt ac mae hyn yn arbed oddeutu £15,000 y flwyddyn mewn cludiant. Fel canlyniad i hyn nid yw'n amlwg yn syth i berthnasau fod yr ymadawedig yn derbyn pensiwn.

1. 5 Mae'r Fenter Twyll Cenedlaethol (MTC) yn cael ei weithredu bob dwy flynedd ac fe all adnabod marwolaethau sydd heb gael eu hysbysu, fodd bynnag fe all y rhai bod i fyny i ddwy flynedd yn hwyr ac maent yn gallu cynnwys hysbysiadau gwallus sydd gyda chanlyniadau a all greu embaras.

1.6 Ar 28 Chwefror 2010 mi oedd 6286 o aelodau yn bensiynwyr gohiriedig yn y gronfa. O rain, mae 671 wedi adnabod fel aelodau sydd wedi newid eu cyfeiriad ond heb roi gwybod i'r uned bensiynau. Fe all rhai eraill anhysbys fodoli hefyd.

1.7 Pob blwyddyn mae nifer uchel o Ddatganiadau Buddion Gohiriedig Blynyddol (DBB) yn cael eu hanfon yn ôl wedi eu marcio 'wedi symud'. Mae hyn yn broblemus gan ei fod yn ofynnol o dan reoliadau i aelodau dderbyn DBB , ond yn fwy problemus yw pryd nid yw'n bosib olrhain yr aelod ar yr amser mae buddion yn daladwy. Efallai bod achosion ble mae aelodau gohiriedig wedi marw heb i'r teulu sylweddoli fod buddion yn daladwy o'r cynllun.

## 2. Gwasanaeth Sgrinio marwolaeth ac Olrhain cyfeiriadau

2.1 Rhan o gynllun gwella'r Uned Bensiynau am 2009/2010 oedd archwilio i mewn i'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth sgrinio marwolaeth ac olrhain cyfeiriadau.

2.2 Mewn termau pris a hwylustod o weinyddiaeth Atmos Data Services Ltd. sydd yn cynnig yr opsiwn mwyaf deniadol gan gynnwys gwiriad dadansoddol am ddim ar y data a storiwyd gan y gronfa. Ar draws y gronfa darganfuwyd yn y gwiriad 33 achosion potensial o farwolaeth (fodd bynnag, fe all rhai neu holl o'r achosion hyn fod yn achosion sydd wedi cael eu hysbysu eisoes ond heb eu prosesu eto)

2.3 Mi oedd 761 cyfeiriadau blaen yrru wedi eu rhestru a 2,117 heb eu cadarnhau (serch hynny fe all rhai o'r rhain deillio o faterion dwyieithog). Nodwyd 8,486 o gyfeiriadau a allai cael eu gwella i gwrdd â safonau'r Post Brenhinol.

## 3. Costau

3.1 Glanhau Data Cychwynnol

Man cychwyn yn unig yw'r proses gyntaf ond gellir ei gario allan ar unrhyw adeg y tybied yn ddoeth i'w wneud. Fel man cychwyn i'r fenter newydd maen fuddiol i sefydlu'r fath wiriad ac i benderfynu ar ba ysbaid y dylid glanhau'r data yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Prosesu Ffeil Glanhau Cod Post a Chyfeiriad** | |
| Darparu cywiriadau / gwellhad ar gyfer 14,219 recordiau @ £0.16 y record: | £2,275.04 |
| **Olrhain Cyfeiriad** | |
| Darparu 761 cyfeiriad wedi ei flaenyrru @ £2.00 y cyfeiriad wedi ei flaenyrru | £1,522.00 |
| Adnabod 317 'wedi symud' @ £0.60 y record sydd wedi ei darganfod | £ 190.20 |
| **Sgrinio Marwolaeth** | |
| Adnabod 33 marwolaethau potensial @ £5.00 y record | £ 165.00 |
| **Total** | **£4,152.24** |

3.2 Sgrinio Marwolaethau Rheolaidd

Mae'r ail broses yn llawer mwy actif ac mi fuasai'n golygu sgrinio 7,098 o bensiynwyr a dibynyddion yn fisol am gost o £2,000 y flwyddyn.
**(Mae'r gost yma yn seiliedig ar 20c y record pob blwyddyn yn amodol ar isafswm o £2,000 y.f ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw hysbysiadau 'wedi symud' a blaen yrru cyfeiriadau ar sail fisol a glanhad 'PAF' blynyddol ar bob record).**

## 4. Argymhelliad

4.1 Fod aelodau yn cymeradwyo'r penodiad o Atmos Data Services fel darparwr Gwasanaeth Glanhau Data a Sgrinio Marwolaethau i Gronfa Bensiwn Gwynedd.

4.2 Fod cyllideb flynyddol o £2,000 yn cael ei gymeradwyo ar gyfer y Gwasanaeth Sgrinio Marwolaeth.

4.3 Fod cyllideb unwaith yn unig o £4,152 yn cael ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/2011 ar gyfer glanhau data ac olrhain cyfeiriadau.

4.4 Penderfynu ar amserlen y dylid y gwasanaeth glanhau data ac olrhain cyfeiriadau cael ei weithredu ac i gymeradwyo'r arian priodol ar gyfer y blynyddoedd penodol.